

I ddod

- **PENWYTHNOS PLANT GOFALAETH BRO ALED (8–12 OED)** yng Ngholeg y Bala, Chwefror 1^{af} – 3^{ydd}. Cofiwch bod £20 o ostyngiad i bob plentyn, diolch i haelioni Ymddiriedolaeth Robert Roberts ac Eglwysi Bro Aled. Bydd angen anfon ffurflen ganiatâd i archebu lle, ynghyd â blaendâl o £10 i Goleg y Bala mor fuan â phosibl.
- **PENWYTHNOS IEUENCTID (BL. 7-11)** yng Ngholeg y Bala, Mawrth 1af – 3ydd. Yma eto, cofiwch bod £20 o ostyngiad i bob unigolyn, diolch i haelioni Ymddiriedolaeth Robert Roberts ac Eglwysi Bro Aled. Gallwch archebu lle trwy fynd i wefan colegybala.org/Cymraeg/rhaglen-y-coleg.
- **LLANW** – Bydd gŵyl Gristnogol Llanw yn cael ei chynnal yn Ninbych y Pysgod yn 2019 a hynny rhwng Ebrill 22ain – 25ain. Cynhelir prif ddigwyddiadau'r ŵyl yn Neuadd Ysgol Greenhill, ac mae nifer cyfyngedig o garafannau ar gael i'w llogi ar safle Kiln Park, Dinbych y Pysgod. Pum munud o daith yn y car sydd i'r ysgol o safle gwyliau Kiln Park, a phum munud o ganol tref Dinbych y Pysgod. Cynhelir oedfa bob bore a phob nos yn Neuadd Ysgol Greenhill, ac fe fydd cyfle i fanteisio ar gyfleusterau safle gwyliau Kiln Park yn ystod y dydd, mynychu seminarau neu i fynd am dro i ymweld â llwybrau a thraethau prydfarth Sir Benfro. Wedi oedfa'r nos bydd cyfle i ymuno mewn gweithgareddau anffurfiol pellach neu gyfle i ymlacio a chymdeithasu dros baned o de. Mi fydd darpariaeth lawn ar gyfer y plant gydol yr wythnos, clybiau yn ystod y gwasanaethau, a rhyddid i fwynhau gweithgareddau eraill yn y prynhawn. Bydd yn ŵyl deuluol ar gyfer holl deulu Crist. Gall unigolyn rhwng 14 a 17 mlwydd oed fynychu'r ŵyl heb eu rhieni os yw Capel neu Warchodwr yn gyfrifol amdano(i). Ewch i'r wefan www.llanw.org i archebu lle ac/neu am fwy o fanylion.

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, Ionawr 30ain, os gwelwch yn dda.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.



Llais Bro Aled

Ionawr 20^{fed} a 27^{ain}, 2019

DILYNWCH NI AR TWITTER:

@eglwysibroaled

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

'Nid oes terfyn ar gariad yr Arglwydd, ac yn sicr ni phalla ei dosturiaethau. Y maent yn newydd bob bore, a mawr yw dy ffyddlondeb.' Dyna eiriau hyfryd Galarnad 3:22-23 i ni fyfyrion arnynt ar ddechrau diwrnod newydd, ac wrth i ni edrych ymlaen at wythnos arall. Does neb ohonom yn gwybod beth a ddaw i'n rhan erbyn yr wythnos nesaf, ond gweddiwn y bydd y gwirioneddau uchod yn gymorth i ni weld fod pob dydd o'r newydd yn rhodd gan Dduw fel y gallwn dderbyn o'i dosturi diddiwedd yng Nghrist.

Bu'r wythnos ddiwethaf yn un o'r rhai mwyaf dramatig yng ngwleidyddiaeth Prydain ers tro. Y llywodraeth yn cael cweir hanesyddol nos Fawrth yn y bleidlais ar eu cynllun i adael yr Undeb Ewropeaidd, ac yna'n llwyddo i oroesi pleidlais o ddiffyg hyder yn Nhŷ'r Cyffredin nos Fercher. Oherwydd hyn i gyd mae dyfodol gwleidyddol Prydain yn glir fel mwd! Rydym wedi clywed proffwydo gwae, pobl am waed ei gilydd a nifer yn dadlau'n groch mai dim ond un ffordd (eu ffordd hwy!) sydd i ddatrys y sefyllfa. Dwi'n siŵr fod yna nifer ohonom yn ddigon pryderus ynglŷn â'r effaith y mae'r dryswch yma'n ei gael ar yr economi ac ar fywoliaeth pobl ar hyd a lled y wlad, ond wrth i ni ddarllen y Beibl cawn ein hatgoffa nad yw tensiwn nag ansicrwydd gwleidyddol yn ddim byd newydd i bobl yr Arglwydd.

Meddyliwch am Heseceia'r brenin a phobl Jwda a Jerwsalem yn wynebu bygythiadau a gwawd ymerodraeth fawr Asyria yn 701CC. (Mae'r hanes i'w weld yn Eiseia 36 a 37). Roedd y gelyn pwerus wedi'u cornelu ac yn rhoi pwysau arnynt i ddod i gytundeb â hwy cyn iddynt gael eu dinistrio. Mynnai prif swyddog brenin Asyria nad oedd pwrpas i bobl Jerwsalem wrando ar Heseceia na dibynnu ar yr Arglwydd. Ond sefyll yn gadarn a wnaeth Heseceia, ac yn hytrach nag ildio i ddirmyg a thwyll y gelyn grymus, trodd at Dduw mewn gweddi gyda'r geiriau 'O Arglwydd y Lluoedd, Duw Israel, sydd wedi ei orseddu ar y cerwbiaid, ti yn unig sydd Dduw dros holl deyrnasoedd y byd; tydi a wnaeth y nefoedd a'r ddaear.' (Eiseia 37:16) Sylweddolai Heseceia fod ei Arglwydd uwchlaw pob grym a gallu daearol, ac oherwydd hynny y gallai ddibynnu arno, ac ar ei addewidion i'w bobl yn yr argyfyngau mwyaf. Gall Cristnogion heddiw gael eu calonogi yn yr un modd o wybod fod teyrnas Dduw yn gadarn a Christ ein brenin eisoes wedi ennill buddugoliaeth derfynol dros bob gelyn ar y Groes. Diolchwn nad oes unrhyw argyfwng yn dirymu addewidion graslon Duw i'w bobl, a bod diogelwch tragwyddol i'w gael gyda'r Bugail Da – 'Yr wyf fi'n rhoi bywyd tragwyddol iddynt; nid ânt byth i ddistryw, ac ni chaiff neb eu cipio hwy allan o'm llaw i.' (Ioan 10:28)

Rhodri

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 20^{fed} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn Williams a bydd Rhodri yn pregethu.
- Mercher – 23^{ain}
lau – 24^{ain} ➤ **Torri Syched** – Bydd y grwpiau tai yn cyfarfod am 7.30.
- **Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.
- **Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yn cyfarfod yn Rhewl am 6.00 pryd trafodir gwaith yr Henaduriaeth a throsglwyddo'r Llywyddiaeth. (Ni fydd y Pwyllgor Gwaith yn cyfarfod.)
- Gwener – 25^{ain} ➤ **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.00.
-
- Sul nesaf – 27^{ain} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Sarah Dafydd a bydd Rhodri yn pregethu.
- Mawrth – 29^{ain} ➤ **Cyfarfod Blaenoriaid a Diaconiaid Gofalaeth Bro Aled** yn Llansannan am 7.30.
- Iau – 31^{ain}
Sadwrn – 2^{il} ➤ **Cyfarfod Plant Llansannan** am 3.15.
- **Darlithoedd DAWN Cymru – Grŵp y Gogledd.** Lleoliad i'w gadarnhau.
-
- Sul canlynol – 3^{ydd} ➤ **Bore Bro Aled** – Oedfa i'r teulu cyfan am 10.30 y bore – y tro hwn yn Llansannan. Bydd gwaith plant yn cael ei gynnal yn y Ffestri yn ystod y gwasanaeth a phaned i bawb ar ôl yr oedfa.

Llanefydd, Cefn Berain, Henllan a Groes

- Sul yma – 20^{fed} ➤ Cynhelir Oedfa Thema yn Henllan am 9.30 a Chyfarfod Gweddi yn Groes am 9.30.
- Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00. Cynhelir Gwasanaeth Teulu yng Nghefn Berain **am 10.00** (sylwch ar y newid amser) gyda phaned i ddilyn.
-
- Sul nesaf – 27^{ain} ➤ Bydd y Parch. Goronwy Prys Owen yn arwain oedfa yn Llanefydd am 9.30 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg.
- Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 a bydd y Parch. Goronwy Prys Owen yn arwain oedfa yno am 11.00.
- Mercher – 30^{ain} ➤ Bydd Cymdeithas Cefn Berain yn cyfarfod am 7.30 pryd y bydd Ifan Berain a Mali Elwy yn rhannu hanes eu taith i Batagonia.
-
- Sul canlynol – 3^{ydd} ➤ **Bore Bro Aled** – Oedfa i'r teulu cyfan am 10.30 y bore – y tro hwn yn Llansannan. Bydd gwaith plant yn cael ei gynnal yn y Ffestri yn ystod y gwasanaeth a phaned i bawb ar ôl yr oedfa.

Cyhoeddiadau

Llansannan, Cefn Meiriadog a Llanfair

- Sul yma – 20^{fed} ➤ Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 9.30 a bydd Mr Gwion Dafydd yn arwain oedfa i'r daith (Llansannan, Cefn Meiriadog a Llanfair) **yng Nghefn Meiriadog am 10.30.**
- Llun – 21^{ain} ➤ Cymdeithas Llansannan – Sgwrs a chàn hefo Arfon Wyn: "Fy nghaneuon i Gymru" yn Ffestri Capel Coffa Henry Rees am 7.30.
- Mawrth – 22^{ain} ➤ Cynhelir Gwasanaeth Dechrau'r Flwyddyn yng Nghefn Meiriadog am 7.00 gyda'r Parch. John Derek Rees yn pregethu. Croeso cynnes i bawb.
- Mercher – 23^{ain} ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion (870656) **erbyn dydd Sul (20^{fed})**, os gwelwch yn dda.
-
- Sul nesaf – 27^{ain} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Llansannan am 9.30 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Bydd Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn yr oedfa.
- Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 9.30 a bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Llanfair am 11.00.
- Mercher – 30^{ain} ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion (870656) **erbyn dydd Sul (27^{ain})**, os gwelwch yn dda.
-
- Sul canlynol – 3^{ydd} ➤ **Bore Bro Aled** – Oedfa i'r teulu cyfan am 10.30 y bore – y tro hwn yn Llansannan. Bydd gwaith plant yn cael ei gynnal yn y Ffestri yn ystod y gwasanaeth a phaned i bawb ar ôl yr oedfa.

Peniel, Saron a Nantglyn

- Sul yma – 20^{fed} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Saron am 10.00 ac yn Nantglyn am 2.00.
-
- Sul nesaf – 27^{ain} ➤ Bydd Mr Alun Jones yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn dilyn.
-
- Sul canlynol – 3^{ydd} ➤ **Bore Bro Aled** – Oedfa i'r teulu cyfan am 10.30 y bore – y tro hwn yn Llansannan. Bydd gwaith plant yn cael ei gynnal yn y Ffestri yn ystod y gwasanaeth a phaned i bawb ar ôl yr oedfa.